**EITEM**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Cynllunio** |
| **DYDDIAD** | **15 Rhagfyr 2014** |
| **TEITL** | **Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Gwaharddiad a Chyfyngiad Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) (Ardal Meirionnydd) 2014** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Argymell bod y Pwyllgor yn cefnogi'r cynnig i gyflwyno cyfyngiadau dim aros yn Stryd Minffordd, Corris.** |
| **AWDUR** | **Aled Davies**<br>**Pennaeth Adran Rheoleiddio** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Cyflwyno cyfyngiadau dim aros yn Stryd Minffordd, Corris.** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Y Cynghorydd William Gareth Roberts** |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Yn dilyn pryderon a fynegwyd gan drigolion lleol ynghylch rhwystr i lif y traffig yn Stryd Minffordd, Corris, cytunodd y Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd i asesu'r sefyllfa.

1.2 Lluniwyd cynnig i gyflwyno cyfyngiadau dim aros ar ffurf llinellau melyn dwbl ar Stryd Minffordd ar bellter o 12 metr o'r gyffordd gyda Stryd y Bont yng nghyfeiriad y de ddwyrain ar y ddwy ochr i'r ffordd.

1.3 Derbyniwyd cyngor gan berson sydd yn byw yn Stryd Minffordd nad oedd y llinellau dwbl melyn yn ymestyn yn ddigon pell a bod cerbydau wedi parcio yn parhau i beri rhwystr i'r llif traffig ar Stryd Minffordd a pheri difrod i'w heiddo. Bu i swyddog o'r Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd ailasesu'r sefyllfa ac roedd yn cytuno gyda'r person y dylid ymestyn y llinellau melyn dwbl er mwyn gwella llif y traffig.

1.4 Yn dilyn y cyfarfod hwnnw, gwnaed cynnig i ymestyn y cyfyngiad dim aros drwy osod llinellau melyn dwbl am 5 metr yn ychwanegol y naill ochr i'r ffordd. Oherwydd amseru'r cyfnod ymgynghori, nid oedd modd i ni gynnwys yr elfen hon yn yr ymgynghoriad blaenorol.

1.5 Derbyniwyd llythyrau'n gwrthwynebu'r cynnig ychwanegol hwn, a nododd un nad oedd yna broblemau mynediad gan boeni y byddai hyn yn effeithio ar werth tai'r pentref. Roedd y pum llythyr arall gan Gyngor Cymuned Corris yn datgan fod y ffordd yn ddigon llydan yn y lleoliad hwn ac y dylid caniatáu parcio ar o leiaf un ochr i'r ffordd heb rwystro llif y traffig. Mae copïau o'r gwrthwynebiadau yn atodol.

## 2. Argymhelliad

2.1 I'r pwyllgor gefnogi'r cynnig i'r cyfyngiadau dim aros, llinellau melyn dwbl, gael eu hymestyn am 5 metr arall ar ddwy ochr Stryd Minffordd i wella llif y traffig.